ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Cynllun Gwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Uned: Meysydd dysgu

TGCh - Y Blynyddoedd Cynnar

Trosolwg o'r uned hon:
Yn y Blynyddoedd Cynnar bydd disgyblion yn datblygu sgiliau TGCh drwy'r Meysydd Dysgu. Bydd disgyblion yn cael eu hannog i holi, ymchwilio a meddwl dros eu hunain. Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i'r disgyblion brofi TGCh yn yr amgylchedd, a hynny dan do ac yn yr awyr agored, yn ogystal â datblygu sgiliau TGCh penodol. Bydd yn rhoi cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol a arweinir gan y plentyn yn ogystal â sesiynau strwythuredig dan arweiniad yr athro/athrawes Dylai adnoddau fod ar gael yn hwylus fel rhan naturiol o gyfleoedd chwarae ymchwiliol. Dylai TGCh fod yn elfen gyfannol ac annatod o bob rhan o'r cwricwlwm. Dylid datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth TGCh plant drwy amrywiaeth o brofiadau lle maent yn (i) dod o hyd i wybodaeth a syniadau ac yn eu datblygu (ii) Creu, a

Lle mae'r Uned hon yn berthnasol:

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, **Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol** - Bydd plant yn siarad am eu profiadau ag eraill, yn cymryd tro ac yn rhannu adnoddau. Caiff TGCh ei defnyddio i gynyddu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill drwy fideos, cerddoriaeth etc. Cânt eu hannog i ofalu am gyfarpar, gweithio gyda'i gilydd ar weithgareddau addas a datblygu dyfalbarhad i gwblhau tasgau.

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu - Bydd plant yn datblygu sgiliau siarad a gwrando. Byddant yn defnyddio TGCh i ysgogi, cofnodi a chyfathrebu meddyliau a syniadau ac yn dechrau datblygu sgiliau trafod a gwneud penderfyniadau. Bydd plant yn datblygu sgiliau llythrennedd ac yn ehangu geirfa drwy ddefnyddio gweithgareddau TGCh priodol mewn modd strwythuredig.

Datblygiad Mathemategol - Bydd plant yn defnyddio TGCh i ddatblygu sgiliau mathemategol megis didoli, cyfrif, trefnu, cydweddu, cymharu meintiau, siapiau, adnabod lliwiau a dilyniannu. Byddant yn datblygu iaith fathemategol drwy siarad a thrafod a chyfleoedd chwarae.

Datblygiad y Gymraeg - drwy ddefnyddio amrywiaeth o ysgogiadau gan gynnwys offer clyweled a gweithgareddau TGCh rhyngweithiol yn Gymraeg, bydd plant yn dechrau datblygu geirfa Gymraeg yn ogystal â sgiliau siarad a gwrando. Byddant yn defnyddio TGCh fel ysgogiad ac yn cofnodi, yn gwrando ar ac yn ymateb i Gymraeg llafar.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd - Bydd plant yn dechrau defnyddio ffynonellau gwybodaeth ac yn cael cyfleoedd ar gyfer chwarae go iawn a chwarae dychmygol. Byddant yn dechrau gwneud dewisiadau a datrys problemau ac yn cael profiad o ddefnyddio TGCh yn yr amgylchedd pob dydd, a siarad amdano.

Datblygiad Corfforol - Bydd plant yn datblygu sgiliau motor gros drwy ddefnyddio'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol a sgiliau motor manwl drwy ddefnyddio llygoden y cyfrifiadur a dyfeisiau TGCh megis camerâu. Cant eu hannog i ddatblygu cydsymudiad llaw a llygad a chyfeiriadaeth o'r chwith i'r dde drwy ddefnyddio cyfarpar TGCh priodol.

Datblygiad Creadigol - Bydd plant yn creu marciau ac yn tynnu lluniau ar gyfrifiaduron, llechi a'r BGRh ac yn creu seiniau a chyfansoddiadau cerddorol syml.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2008. Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg

ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGC

Cynllun Gwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Disgwyliadau ar ddiwedd yr uned hon:

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu: cymryd tro, dangos eu bod yn gofalu am gyfarpar a siarad am eu profiadau.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: siarad â chefnogaeth am eu profiadau.

Bydd rhai disgyblion hefyd yn gallu: siarad yn hyderus am eu profiadau, dechrau gweithio gydag eraill a dangos dyfalbarhad i gwblhau tasgau.

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu: defnyddio'r BGRh/bysellfwrdd i ysgrifennu eu henwau a dod o hyd i lythrennau/rhifau Maent yn ymateb ar lafar i amrywiaeth o ysgogiadau amlgyfrwng ac yn gwybod enwau cyfarpar TGCh.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: defnyddio'r BGRh/bysellfwrdd i wneud marciau neu ysgrifennu sy'n datblygu a siarad am TGCh gyda chefnogaeth.

Bydd rhai disgyblion hefyd yn gallu: defnyddio'r BGRh/bysellfwrdd a chronfa eiriau i ysgrifennu eu henwau a dechrau ysgrifennu brawddegau syml gyda chefnogaeth. Gallant gofio'u profiadau a siarad yn hyderus am TGCh.

Datblygiad mathemategol

Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu: defnyddio adnoddau a meddalwedd i gefnogi sgiliau mathemategol.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: defnyddio adnoddau a meddalwedd gyda chefnogaeth i ddatblygu sgiliau mathemategol.

Bydd rhai disgyblion hefyd yn gallu: defnyddio adnoddau a meddalwedd i ddatblygu sgiliau mathemategol gydag annibyniaeth gynyddol a siarad am eu dewisiadau.

Datblygiad y Gymraeg

Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu: ymateb i amrywiaeth o ddeunydd clywedol gan ddefnyddio geirfa Gymraeg a chwblhau gweithgareddau rhyngweithiol TGCh syml yn Gymraeg.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: cwblhau gweithgareddau rhyngweithiol yn Gymraeg gyda chefnogaeth ac adnabod peth geirfa Gymraeg.

Bydd rhai disgyblion hefyd yn gallu: ymateb i amrywiaeth o ddeunydd clywedol gan ddefnyddio geirfa Gymraeg a chwblhau gweithgareddau rhyngweithiol TGCh syml yn Gymraeg. Maent yn gwrando ar Gymraeg llafar/wedi'i recordio ac yn ymateb iddi yn hyderus.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu: siarad am y defnydd o TGCh mewn sefyllfaoedd pob dydd.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: siarad gyda chefnogaeth am y defnydd o TGCh mewn sefyllfaoedd cyfyngedig.

Bydd rhai disgyblion hefyd yn gallu: siarad am y defnydd o TGCh mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau gan gynnwys y defnydd o sganwyr, signalau traffig, til arian, peirannau dosbarthu arian etc.

Datblygiad Corfforol

Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu: defnyddio llygoden yn gywir i reoli'r cyfrifiadur a defnyddio bys i reoli'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: defnyddio llygoden gyda rheolaeth sy'n datblygu.

Bydd rhai disgyblion hefyd yn gallu: defnyddio'r llygoden yn hyderus a defnyddio pen i reoli'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol

Datblygiad Creadigol

Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu: creu marciau gan ddefnyddio pecyn graffeg a llusgo lluniau ar grid i gyfansoddi alaw a newid yr offeryn.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: creu marciau gan ddefnyddio pecyn graffeg a llusgo lluniau ar grid i gyfansoddi alaw.

Bydd rhai disgyblion hefyd yn gallu: tynnu lluniau mwy manwl, newid maint y brwsh, llusgo lluniau ar grid i gyfansoddi alaw syml.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2008. Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg